



Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith brynhawn Iau y 21^{ain} o Dachwedd 2019 1:30 y.p. yn Ffestri Capel Noddfa, Rhydypennau, Aberystwyth

Yn Bresennol

Iona Evans	Cadeirydd
Hywel Madog Jones	Is-gadeirydd
Margaret Roberts	Trysorydd
Gareth W Jones	Ysgrifennydd

Eirian Davies, Robert Evans, John Griffith, Dafydd Horan, Carys Parry, Elizabeth Roberts, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams, Phillip Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb gan ychwanegu ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda Dafydd Horan a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dafydd Lewis.

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR Y 15^{fed} O AWST 2019

Cynigiodd Robert Evans ac eiliodd Eirian Davies dderbyn y cofnodion a gylchredwyd yn gofnod cywir.

4. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR YR 21^{ain} O FEDI 2019

Cynigiodd Hywel Madog Jones ac eiliodd Philip Williams dderbyn y cofnodion a gylchredwyd yn gofnod cywir.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(i) Cofnod 4i: Penodi Is-lywyddion Ychwanegol

Adroddodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth na ddymunai'r darpar Is-lywydd, a awgrymwyd mewn cyfarfod cynharach, dderbyn y cynnig oherwydd amgylchiadau personol. Trafodwyd enw amgen ond penderfynwyd dal y mater mewn cof ond peidio â gweithredu'n bellach am y tro.

(ii) Cofnod 4v a: Datblygu polisi ynglŷn â thaliadau i sefydliadau eraill.

Dywedodd Golygydd y Cylchlythyr fod trafodaeth gyda Golygydd y Naturiaethwr ar y gweill.

(iii) Cofnod 4v b: Cyfrannu at gynhyrchiad y Cwmni Pendraw "Lasynys"

Gohiriwyd trafodaeth oherwydd cysylltiad â'r eitem uchod.

(iv) Cofnod 4vi: Diogelu data Prosiect Llên Natur – rôl y Llyfrgell Genedlaethol

Gohiriwyd trafodaeth gan nad oedd cynrychiolydd Llên Natur yn bresennol.

(v) Cofnod 7i: Gŵyl Amgylcheddol 2020

Adroddodd John Griffith iddo fynychu cyfarfod gyda threfnwyr yr Ŵyl ac esboniodd mai Elinor Gwynn sydd yn cydlynu ond nad oes pwyllgor ffurfiol. Dywedodd ei fod wedi cytuno y byddai'r Gymdeithas yn trefnu taith gerdded ar Sul yr Ŵyl. Gofynnwyd i'r Gymdeithas logi dwy ystafell yng Ngaleri Caernarfon am ffi o tua £110 + TAW yr un.

Esboniodd y Cadeirydd y byddai Cymdeithas Edward Llwyd yn gohirio Cynhadledd 2020 er mwyn gallu cefnogi'r Ŵyl. Dywedodd y byddai'r digwyddiad yn cynnwys sgysiau, teithiau ac arddangosfa gelf.

Gofynnwyd sut y bwriadwyd defnyddio'r ddwy ystafell a thrafodwyd y posibilrwydd o drefnu arddangosfa a cheisio denu aelodau newydd. Nodwyd bod angen sicrhau bod y Gymdeithas yn cael gwerth ei harian. Penderfynwyd cytuno mewn egwyddor i logi o leiaf un ystafell ond gohirio penderfyniad terfynol tan fis Chwefror gan ddisgwyl y byddai manylion llawn ar gael erbyn hynny.

(vi) Cofnod 8a: Swyddi'r Ysgrifennydd Aelodaeth a'r Trysorydd

Trafodwyd trosglwyddo rhai o dasgau'r Ysgrifennydd Aelodaeth i'r Trysorydd neu hyd yn oed uno'r ddwy swydd. Dywedodd y Trysorydd y byddai'n fodlon derbyn ffurflenni ymaelodi ond na all ymgymryd â delio ag aelodau sydd yn methu â thalu'r tâl aelodaeth. Ni chredwyd y gallai'r Lolfa ddsbarthu cylchgronau i ysgolion a cholegau. Tynnwyd sylw mai amser mwyaf prysur yr Ysgrifennydd Aelodaeth yw yn ystod yr Eisteddfod a'r misoedd dilynol.

Cytunwyd i ddefnyddio'r wefan a thudalen Weplyfr y Gymdeithas i atgoffa aelodau i dalu ym mis Gorffennaf os nad ydynt wedi cwblhau ffurflen debyd uniongyrchol. Awgrymwyd codi'r tâl aelodaeth i'r fath aelodau.

Cytunodd y Cadeirydd i sôn am angen olynydd i'r Ysgrifennydd Aelodaeth yn y Cylchlythyr.

(vii) Cofnod 8b: Swyddi'r Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Cofnodion

Nid oedd cynnydd i'w adrodd a chytunwyd y byddai dalwyr presennol y swyddi'n cynnal trafodaeth cyn y cyfarfod nesaf.

(viii) Cofnod 12: Taith y Pererin Gogledd Cymru

Adroddwyd bod y teithiau cyntaf wedi digwydd a bod y ddau Drefnydd yn cysylltu er mwyn sicrhau na fydd gwrthdaro rhwng cymalau yn y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin.

(ix) Cofnod 13c: Uwchraddio cyfrifiadur y Trysorydd

Dywedodd y Trysorydd fod angen uwchraddio meddalwedd y gluniadur oherwydd byddai'r gwasanaeth diweddar "Windows 7" yn darfod yn fuan. Mynegwyd y farn na fyddai gosod "Windows 10" ar gyfrifiadur deg mlwydd oed yn debyg o fod yn foddhaol a chytunwyd yn ddiwrthwynebiad i brynu un newydd (**pwynt gweithredu**).

6. DERBYN COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL ER GWYBODAETH YN UNIG

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cofnodion iddi gywiro dau ffigwr anghywir yn adroddiad y Trysorydd ers dosbarthu'r drafft cyntaf.

Cynigiodd Hywel Madog Jones dderbyn y cofnodion, ar ôl y newidiadau uchod, yn gofnod cywir. Eiliodd Philip Williams a chytunwyd yn ddiwrthwynebiad.

7. ADRODDIAD GAN Y CADEIRYDD O'R GYNHADLEDD FLYNYDDOL

Canmolwyd lleoliad y Gynhadledd gan y Cadeirydd a'r croeso a'r bwyd a gafwyd yn y gwesty. Diolchodd i Alan am arwain taith ddydd Sadwrn gan sylwi bod pawb wedi cael hwyl wrth gerdded o gwmpas Brynbuga a gweld y tŷ lle ganed Alfred Russel Wallace. Dywedodd iddi fwynhau'r ddwy ddarlith ddiddorol nos Wener a nos Sadwrn a thaith fer fore Sul.

Diolchodd y Cadeirydd i Elizabeth Roberts am drefnu Cynhadledd mor dda. Cofnododd Elizabeth ei diolchgarwch i Alan Williams am ei gymorth.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dristwch pawb wrth glywed bod mab Rheinallt Llwyd wedi marw yn ystod cyfnod y Gynhadledd. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi anfon llythyr o gydymdeimlad ar ran y Gymdeithas.

8. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLYNYDDOL

(i) Y Gadeiryddiaeth

Atgoffwyd y PG bod angen apelio am aelod sydd yn fodlon cael ei ethol / hethol yn Gadeirydd yn 2020. Awgrymwyd na fyddai llawer o bobl yn debyg o wirfoddoli ac efallai y byddai angen trafod y sefyllfa gydag aelodau. Esboniodd yr Is-gadeirydd y byddai'n fodlon cadeirio ambell gyfarfod petai angen ond ni ddymunodd cael ei ethol yn Gadeirydd. Cytunwyd yn unfrydol na fyddai ymddeoliad Hywel Madog fel Is-gadeirydd o gymorth wrth benodi Cadeirydd newydd.

Mynegwyd pryder nad yw'r aelodau'n deall swyddogaeth y PG. Penderfynwyd gosod y cofnodion, wedi'u golygu petai angen, ar y wefan ar ôl eu derbyn gan y PG (**pwynt gweithredu**). Awgrymwyd hefyd ddefnyddio'r dudalen Weplyfr i dynnu sylw bod y cofnodion ar gael. Penderfynwyd hefyd gofyn i'r aelodau'n gyffredinol, yn ogystal ag aelodau'r PG, awgrymu eitemau i agendâu cyfarfodydd y PG.

(ii) Olynydd i'r Ysgrifennydd Aelodaeth

Gweler eitem 5. (vi) uchod. .

9. CYFARFOD BLYNYDDOL 2020 – SIARADWYR DICHONOL

Cyhoeddodd Trefnydd y Gynhadledd y cynhelir cyfarfod 2020 yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon ar benwythnos 2^{il} i 4^{ydd} mis Hydref. Cytunwyd i wahodd Ieuan Wyn i siarad nos Wener (**pwynt gweithredu i'r Ysgrifennydd**) a Deri Tomos nos Sadwrn (**pwynt gweithredu'r Is-gadeirydd**) gan ofyn a fyddai angen ffi a/neu lety. Soniwyd am enwau wrth gefn.

10. DARLITH Y GYMDEITHAS YN EISTEDDFOD SIR CEREDIGION

Cytunodd yr Ysgrifennydd i estyn gwahodd i Iestyn Evans, Rheolwr Cors Caron i Gyfoeth Naturiol Cymru neu Rhoswen Leonard, hefyd o Gyfoeth Naturiol Cymru (**pwynt gweithredu**).h

11. CYNLLUNIAU AR GYFER STONDIN Y GYMDEITHAS YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Adroddodd yr Is-gadeirydd fod y Pwyllgor Marchnata wrthi'n trafod cynllun y stondin at y dyfodol a hefyd sut i storio a chludo paneli arddangos. Dywedodd ei fod yn disgwyl i'r PM gyrraedd penderfyniad yn ystod y tri mis nesaf.

Cytunodd Jackie i drafod cynnwys arddangosfa ynglŷn â Cheredigion gydag aelodau'r ardal. Awgrymodd Iwan Roberts osgoi pynciau y byddai sefydliadau eraill yn debyg o'u dewis.

Adroddwyd i'r Eisteddfod gytuno i gynnwys cystadleuaeth y Gymdeithas yn y "Testunau" bob blwyddyn. Tynnwyd sylw y dylid cyhoeddi'r feirniadaeth yn yr adran Gwyddoniaeth a Thechnoleg ac nid gyda'r cyfansoddiadau llenyddol.

12. GWEFAN Y GYMDEITHAS

Dywedodd yr Is-gadeirydd bod y broses o ddiweddarau'r rhaglen yn gymharol ddiraffferth y tro diweddaraf. Ychwanegodd y byddai'n falch o gael gwybod petai rhywun yn sylwi ar ddiffygion.

Gofynnodd yr Is Gadeirydd am ddadansoddiad o'r gwariant o £1,567 ar gyfer "gwefan" a gofnodwyd yng nghyfrifon 2018-2019. Dywedodd y Trysorodd fod y swm yn cynnwys gwariant prosiect Llên Natur ac addawodd ddarparu gwybodaeth fanwl.**(pwynt gweithredu)**

13. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU

(a) Yr Is-bwyllgor Marchnata

Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw at eitem 11 uchod sydd yn ymwneud â Marchnata..

Gofynnwyd a oedd unrhyw aelod o'r PG wybod lleoliad fersiwn gwreiddiol logo y Gymdeithas. Dywedodd Elizabeth Roberts iddi wneud ymholiadau yn y gorffennol heb lwyddiant.

Nododd yr Is-gadeirydd fod rhaid tynnu sylw ysgolion at gystadleuaeth y Gymdeithas yn Eisteddfod yr Urdd.

(b) Is-bwyllgor Llên Natur dim adroddiad

(c) Y Trysorydd

Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad i dalu £138 ar gais Cynrychiolydd Llên Natur am waith ar y "Tywyddiadur".

Dosbarthwyd y fantolen a ddangosodd incwm o £7,138.46 rhwng 13.08.2019 a 19.11.2019. Tynnwyd sylw at rodd o £68, elw o gyfarfod yng Nghapel y Berthen, Licswm gyda'r Prifardd Ieuan Wyn. Cytunodd yr Ysgrifennydd i anfon llythyr o ddiolch **(pwynt gweithredu)**.

Gwariant yn ystod y cyfnod oedd £6,350.32. Bu £44,998. mewn llaw gan gynnwys £17,104.42 yn nau fond Banc Hodge. Rhestrwyd gwerth tua £13,150 o eitemau y disgwylid eu talu yn y dyfodol agos.

Trafodwyd ail-fuddsoddi £10,000 ym mond Banc Hodge pan fydd yn aeddfedu ym mis Rhagfyr a chodwyd cwestiwn ynglŷn â moesoldeb y buddsoddiad. Cytunwyd i wneud ymholiadau ar gyfer y dyfodol **(pwynt gweithredu)** ond i beidio â gohirio ail-fuddsoddi.

- Diolchodd y Cadeirydd i'r Trysorydd am ei gwaith.
- (ch) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth
Dywedodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth fod 638 o danysgrifiadau ar ôl derbyn 46 o danysgrifiadau newydd a cholli tua'r un nifer.
- (d) Trefnyddion Gweithgareddau
Dywedodd Trefnydd y Gogledd-orllewin fod aelod sydd yn byw yng Nghymbria wedi cynnig teithiau canol wythnos yn ystod yr hydref nesa, Penderfynwyd cynnwys y teithiau yn y rhaglen a'u cyhoeddi yn y Cylchlythyr, ar y wefan ac ar dudalen Weplyfr y Gymdeithas gan esbonio y byddai rhaid i aelodau wneud eu trefniadau eu hunain o ran llety a chyrraedd yr ardal (**pwnt gweithredu**)

Tynnwyd sylw at y bwriad o gynnwys taith yn Sir Ddinbych yn rhaglen ardal y Gogledd-orllewin. Ni welwyd hynny'n broblem.
- (dd) Golygydd y Cylchlythyr
Gofynnodd y Golygydd am adborth ynglŷn â'r ymdrech i hyrwyddo'r Gymdeithas drwy bapurau bro.

Amlinellwyd cynnwys arfaethedig y rhifyn nesaf a thynnwyd sylw mai'r Nadolig fyddai'r dyddiad cau. Nodwyd bod angen bywgraffiad byr a llun o Dafydd Horan (**pwnt gweithredu**).
- (e) Golygydd y Naturiaethwr dim adroddiad
- (f) Trefnydd y Gynhadledd
Cadarnhaodd y Trefnydd y cynhelir Cynhadledd 2020 ar benwythnos 2^{il} i 4^{ydd} mis Hydref.

Dywedwyd bod rhaid gwrthod ad-daliad eleni i aelod a dynnodd yn ôl ar ôl i'r Gymdeithas dalu'r gwesty. Cytunwyd i ychwanegu brawddeg at y ffurflen gofrestru yn esbonio na fydd ad-dalu'n bosibl ar ôl dyddiad penodol (**pwnt gweithredu**).
- (ff) Trefnydd Gwyliu'r Gymdeithas
Esboniodd y Trefnydd Gwyliu fod printio cardiau adnabod dwyochrog wedi costio mwy na'r disgwyl ac felly cynhyrchiwyd 100 yn lle 500. Penderfynwyd eu dosbarthu i gerddwyr y Gogledd-orllewin ac asesu'u hymateb cyn archebu mwy.

Dywedodd Carys i'r gwesty yn Lulworth ofyn am hanner cost yr ystafelloedd a archebwyd erbyn diwedd mis Tachwedd. Cadarnhawyd bod 16 aelod wedi archebu lleoedd a bod tri wedi cytuno i drefnu teithiau. Esboniwyd y gallai fod yn bosibl i fwy o aelodau fwcio ar ôl y dyddiad cau ond nid oedd gwarant y byddai ystafelloedd ar gael. Cytunodd Carys i ysgrifennu eitem i'r Cylchlythyr (**pwnt gweithredu**).

14. GOHEBIAETH

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ann Gwynne yn gofyn am gymorth ariannol ac ymarferol i gyhoeddi ei chofnodion o deithiau'r Gymdeithas yn ei hardal ar ffurf llyfr. Esboniwyd y byddai'n ddymunol osgoi costau ffotograffydd proffesiynol a chynigiodd Alan ac Eirian gyfrannu lluniau digidol. Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw i'r Gymdeithas gyhoeddi dau lyfr o deithiau yn y gorffennol ac awgrymodd y dylai'r Gymdeithas gyfrannu'n ariannol o gronfeydd cyfalaf. Mynegwyd y gobai'th y gallai'r llyfr fod yn barod i'w werthu ar stondin y Gymdeithas yn Eisteddfod Sir Ceredigion.

15. UNRHYW FATER ARALL

- (i) Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod aelod o'r PG wedi codi tri phwnc a gofynnodd i bawb eu hystyried cyn y cyfarfod nesaf:-
 - (a) Uno'r Cylchlythyr a'r Naturiaethwr
 - (b) Cefnogi'r cylchgrawn "Gwyllt"
 - (c) Defnyddio technoleg i leihau nifer o gyfarfodydd y PG
- (ii) Diolchodd Philip Williams i Rob Evans am ei adroddiadau o deithiau'r Gymdeithas i bapurau bro.
- (iii) Awgrymodd Elizabeth Roberts y dylai aelodau nodi rhif ffôn symudol yr arweinydd ar ddechrau teithiau cerdded gan sôn am achlysur pan na allai aelod rhoi gwybod bod rhaid iddo droi yn ôl.

16. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2020

Yn amodol ar dderbyn cadarnhad bod Ffestri Noddfa ar gael:-

20^{fed} Chwefror

21^{ain} Mai

20^{fed} Awst

19^{eg} Tachwedd